**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 16 Tachwedd 2017 am 10.00 am**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd C E Lloyd oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| M C Child | W Evans | R Francis-Davies |
| A S Lewis | M Thomas | J A Raynor |
| M Sherwood | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D H Hopkins a/ac R C Stewart

## 77. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd Robert Francis-Davies fudd personol a rhagfarnol yng Nghofnod 86 "Adborth o’r Cyfarfod Craffu cyn Penderfynu - Stadiwm Liberty" ac yng Nghofnod 87 "Stadiwm Liberty" a gadawodd y cyfarfod cyn trafod yr eitem;

2) Datganodd y Cynghorwyr M C Child ac M Thomas fudd personol yng Nghofnod 68 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol”;

3) Datganodd Phil Roberts, y Prif Weithredwr fudd personol yng Nghofnod 86 "Adborth o’r Cyfarfod Craffu cyn Penderfynu - Stadiwm Liberty" ac yng Nghofnod 87 "Stadiwm Liberty".

## 78. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2017.

## 79. Adroddiad(au) Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Dirprwy Arweinydd y Cyngor.

## 80. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau ynglŷn â chofnod 87 "Stadiwm Liberty".

Ymatebodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor.

## 81. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 82. Adborth o'r Cyfarfod Craffu cyn Penderfynu - Cynllun Peilot Mwy o Gartrefi Safleoedd Ffordd Milford a Pharc yr Helyg. (Llafar)

Cyflwynodd y Cynghorydd T J Hennegan yr adborth ar graffu cyn penderfynu.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi cynnwys yr adborth ar graffu cyn penderfynu.

## 83. Cynllun Peilot Mwy o Gartrefi Safleoedd Ffordd Milford a Pharc yr Helyg.

Cyflwynwyd adroddwyd gan Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau, a roddodd y diweddaraf am y broses o gwblhau cynllun peilot cyntaf Mwy o Gartrefi ar Ffordd Milford ac a oedd yn ceisio cymeradwyaeth am yr ail safle peilot ym Mharc yr Helyg i gydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (FPR).

Symudodd y diwygiadau canlynol i'r adroddiad:

a) Disodli'r holl gyfeiriadau at "Ffordd Milford" yn yr adroddiad â "Ffordd Colliers";

b) Rhoddir "Parc yr Helyg" fel enw ar safle Cynllun Peilot Mwy o Gartrefi.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid cymeradwyo'r diwygiadau uchod;

2) Nodi cynnydd a chostau terfynol y cynllun peilot cyntaf ar Ffordd Colliers;

3) Cymeradwyo'r goblygiadau ariannol yn unol ag FPR 7;

4) Cymeradwyo dyrannu £500,000 i gynllun Parc yr Helyg ar gyfer y gwaith galluogi, y caiff y manylion eu dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Lleoedd, yn unol â gofyniad FPR 7;

5) Cyflwyno adroddiad arall i'r Cabinet er mwyn cadarnhau pa opsiynau y dylid eu datblygu ym Mharc yr Helyg ynghyd â'r costau disgwyliedig terfynol yn unol ag FPR 7.

**84. Adborth o'r Cyfarfod Craffu cyn Penderfynu – Adolygiad Comisiynu Gwasanaethau Cymorth I Deuluoedd - Adroddiad Arfarnu Opsiynau (Porth 2) ar gyfer clwstwr Anableddau Plant yr Adolygiad Comisiynu. (Llafar)**

Cyflwynodd y Cynghorydd P R Hood-Williams yr adborth ar graffu cyn penderfynu.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi cynnwys yr adborth ar graffu cyn penderfynu.

**85. Adolygiad Comisiynu Gwasanaethau Cymorth I Deuluoedd - Adroddiad Arfarnu Opsiynau (Porth 2) ar gyfer clwstwr Anableddau Plant yr Adolygiad Comisiynu.**

Bu adroddiad ar y cyd gan Aelodau'r Cabinet dros Iechyd a Lles a thros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, a gyflwynodd yr opsiynau arfaethedig ar gyfer newidiadau i'r gwasanaethau sydd ar gael i blant ag anghenion ychwanegol ac anableddau, a nodwyd drwy broses gomisiynu ehangach Adolygiad Comisiynu Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd yn Adran 2 yr adroddiad, ar ôl ymgynghori.

**86. Adborth o'r Cyfarfod Craffu cyn Penderfynu - Stadiwm Liberty. (Llafar)**

Cyflwynodd y Cynghorydd T J Hennegan yr adborth ar graffu cyn penderfynu.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi cynnwys yr adborth ar graffu cyn penderfynu.

**87. Stadiwm Liberty.**

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan Arweiniad y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes, a roddodd y diweddaraf am y trafodaethau masnachol rhwng Clwb Pêl-droed Abertawe a Chyngor Abertawe am drefniadau'r brydles bresennol.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Penawdau'r Telerau fel y'u nodir yn yr adroddiad hwn;

2) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Lleoedd, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes i drafod a chytuno ar unrhyw delerau eraill neu derfynol fel y bo angen;

3) Awdurdodi Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes i baratoi unrhyw ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol i gwblhau'r cytundeb a chyflwyno'r ddogfennaeth ar ran y cyngor;

4) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Lleoedd, ar ôl cytuno ar y telerau terfynol, i adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd am y sefyllfa ddiweddaraf, yn unol â rhwymedigaethau parhaus y cyngor.

## 88. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 2il 2017/18.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes a oedd yn amlinellu'r broses o fonitro ariannol cyllidebau refeniw a chyfalaf 2017/2018, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

## 89. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i'r enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol fel y'u hargymhellwyd gan Banel Penodi Llywodraethwyr yr ALl:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ysgol Gynradd Clydach | Mrs Mair Lewis |
| 2. | Ysgol Gynradd Grange | Mrs Christine Elizabeth May |
| 3. | Ysgol Gynradd yr Hafod | Mrs Kirsty Rees |
| 4. | Ysgol Gynradd Pengelli | Y Cyng. Jan Curtice |
| 5. | Ysgol Gynradd Penyrheol | Mr Christopher Seacombe |
| 6. | Ysgol Gynradd Plasmarl | Mrs Kirsty Rees |

## 90. Cyflwyno'r Cynllun Busnes ar gyfer model Menter Bwyd Abertawe cyn allanoli fel Cwmni Budd Cymunedol

Bu cyflwyniad ar y cyd gan Aelodau’r Cabinet dros Gymunedau Cryfach a thros Gyfleoedd Masnachol ac Arloesedd, a gyflwynodd gynllun busnes ar gyfer model Menter Bwyd Abertawe cyn ei hallanoli fel cwmni budd cymunedol.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cynllun busnes y Fenter Bwyd;

2) Allanoli'r Fenter Bwyd fel cwmni budd cymunedol o 1 Ebrill 2018 (yn ddibynnol ar geisiadau buddsoddi llwyddiannus).

**91. Gwahardd y cyhoedd: -**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**92. Diweddariad ar gyfnewid tir ym Mharc Morfa, Glandwr, Abertawe.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i amrywio argymhelliad i gyfnewid tir y cytunwyd arno'n flaenorol er mwyn hwyluso'r trefniadau trafod terfynol i alluogi Stadiwm Liberty i gael ei ehangu.

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo'r argymhelliad fel a nodwyd yn yr adroddiad.

**93. Pryniant arfaethedig eiddo buddsoddi ym Mro Abertawe.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gaffael yr eiddo uchod fel rhan o'r Gronfa Fuddsoddi mewn Eiddo. Cafodd y gronfa ei chreu ar ôl penderfyniad gan y Cabinet ar 21 Gorffennaf 2016.

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo'r argymhelliad fel a nodwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.03 am

**Cadeirydd**

**Cyhoeddedig: 16 Tachwedd 2017**